

Taflen i
Athrawon

Rhaglen addysg Cyfrifiad 2021, Gadewch i ni Gyfrif!



Cyfrifiad 2021

Caiff y cyfrifiad nesaf ei gynnal ddydd Sul 21 Mawrth 2021. Arolwg sy'n digwydd unwaith bob 10 mlynedd yw'r cyfrifiad ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn helpu i gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn eich ardal. Drwy ledaenu'r neges a chymryd rhan yn y cyfrifiad, byddwch yn helpu i wneud yn siŵr bod eich cymuned yn cael ei chyfrif ac yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arni. Dysgwch fwy am Gyfrifiad 2021 yn www.cyfrifiad.gov.uk

"Mae Gadewch i ni Gyfrif! wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymuned ac mae wedi ein helpu i atgyfnerthu ein cwricwlwm."

Emma Foster,

Arweinydd Mathemateg, Ysgol Gynradd Halley House, Hackney.

Gadewch i ni Gyfrif!

Mae ein hysgol yn cymryd rhan yn Gadewch i ni Gyfrif! Bydd y rhaglen adnoddau addysg gyffrous hon a gynigir yn rhad ac am ddim yn helpu i addysgu plant am y digwyddiad pwysig ac unigryw hwn, yn ystod y cyfnod cyn y cyfrifiad ddydd Sul 21 Mawrth 2021.

Mae'r rhaglen hon sy'n rhad ac am ddim ac yn hawdd i'w defnyddio yn cynnwys **14 o gynlluniau gwersi trawsgwricwlaidd** y gellir dewis o'u plith, sy'n ymdrin â chymunedau cynnydd 1 i 3.

Gall Gadewch i ni Gyfrif! helpu i wella sgiliau mathemateg a sgiliau ysgrifennu ac mae wedi cael ei hachredu gan MEI, NATE a'r Gymdeithas Ddaearyddol.

Mae'r pynciau dan sylw yn cynnwys y canlynol:

- Mathemateg a rhifedd
- Iechyd a lles
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Celfyddydau mynegiannol
- Cymhwysedd digidol
- Gwyddoniaeth a thechnoleg
- Y Dyniaethau

Dyluniwyd adnoddau Gadewch i ni Gyfrif! i addysgu plant yn yr ystafell ddosbarth a gartref.

Ceir gwersi fideo gan Arbenigwr ar Fathemateg Cynradd yn MEI ac Aelod Cyswllt o NCETM ar bwnc **'Y GIG a'r cyfrifiad' a 'Beth yw'r cyfrifiad?'**

Yn ogystal, ceir gwers fideo fyw arbennig gan yr Athro David Olusoga ar y pwnc **'Cydraddoldeb, cynrychiolaeth a'r cyfrifiad'** gyda chynllun gwers a chyflwyniad PowerPoint ategol.

Ceir hyd yn oed sesiwn fideo datblygu proffesiynol gan athrawon o MEI sy'n unigryw i Gadewch i ni Gyfrif! Bydd y sesiwn hon yn trafod y cynnydd mewn ystadegau ar draws y blynyddoedd cynradd.

Mae'r adnoddau ar gael i'w lawrlwytho yn www.gadewchinygyfrif.org.uk

Mae gwefan Gadewch i ni Gyfrif! yn ein galluogi i gael gafael ar ddata o gyfrifiadau blaenorol ar gyfer ein hardal leol, gan ddefnyddio gwasanaeth Nomis. Yn ogystal, gallwn greu siartiau wedi'u personoleiddio wedi'u teilwra at ein hysgol gan ddefnyddio'r adnodd llunio siartiau, sy'n berffaith ar gyfer datblygu arddangosfeydd wal.

Y Cathod Cyfrif

Bydd cymeriadau'r Cathod Cyfrif yn helpu'r disgyblion i gael hyd yn oed fwy o hwyl wrth ddysgu. Chwaraewch y fideo ar wefan Gadewch i ni Gyfrif! er mwyn cyflwyno Digit, Scribble, Doc, Scout a Splotch i'r plant!



Cystadleuaeth Diwrnod Gadewch i ni Gyfrif!

Enillwch gwerth hyd at £1,000 o gyfarpar. Yn ogystal, bydd yr ysgol fuddugol yn cyhoeddi poblogaeth newydd Cymru a Lloegr yng Nghyfrifiad 2021 am y tro cyntaf!



Mae'r rhaglen addysg yn cyrraedd ei hanterth ar un diwrnod (Diwrnod Gadewch i ni Gyfrif! o'n dewis) cyn Diwrnod y Cyfrifiad ddydd Sul 21 Mawrth 2021.

Dylai ein disgyblion gyfrif pethau, efallai wrth gerdded i'r ysgol neu yn yr ardal leol, a chasglu data ar unrhyw **bwnc sy'n bwysig iddynt**. Gyda'r wybodaeth a gesglir, gallwn ddatblygu siartiau a graffiau lliwgar ar gyfer ein harddangosfa wal am y cyfrifiad. Gellir lanlwytho lluniau neu fideos o'n harddangosfeydd i wefan Gadewch i ni Gyfrif! **Y dyddiad cau ar gyfer cymryd rhan yw dydd Gwener 23 Ebrill 2021.**

Bydd y cynigion gorau yn ennill gwobrau gwych. Bydd enillwyr rhanbarthol ac un ysgol a fydd yn ennill y brif wobwr.

Drwy rannu delweddau a straeon ar ein sianelau ar y cyfryngau cymdeithasol, a defnyddio @Cyfrifiad2021 #GadewchiniGyfrif, gallwn roi gwybod i rieni/gofalwyr a'n cymuned leol ein bod yn cymryd rhan.

Ewch i wefan Gadewch i ni Gyfrif! yn www.gadewchinigyfrif.org.uk am ragor o wybodaeth.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm cyfrifiad iChild yn census@ichild.co.uk

